# <u>Cyngor Cymuned Llandderfel.</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Rhagfyr 2il 2025 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Alwyn Jones (cadeirydd), Gwynedd Jones, Iolo Evans, Bethan Thomas, Rita Jones, Eilir Rowlands, Gary Thomas, Meilir Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dewi Pritchard, Eifion Davies a Gwenda Evans

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfodydd mis Tachwedd a chafwyd yn gywir.**

**<u>ii) Datgan Buddiant.</u>**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**<u>iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.</u>**

<u>a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.</u>
i) Cyfyngiad cyflymder wrth Ysgol Ffridd y Llyn, Cefnddwysarn – derbyniwyd canlyniadau'r data a gasglwyd yn mesur cyflymder cerbydau wrth iddynt basio'r ysgol (cyfartaledd o 29.08 m.y.a). Cytunwyd yn unfrydol i ofyn i'r swyddogion edrych i weld pa fesuriadau oedd yn bosib i'w gosod yno.
ii) Ymholiad pan nad oedd cyfynygiad cyflymder 20 m.y.a. ym mhentref Sarnau – cafwyd cadarnhad nad oedd y pentref yn cyrraedd gofynion y canllawiau, yn bennaf oherwydd fod dwysedd eiddo yn rhy isel.

<u>b) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned – Cais mynwent St. Mark, Frongoch.</u>
Adroddodd y clerc fod y coed wedi cael eu torri i lawr a'r gwaith walio wedi gorffen. Mi fyddai gweddill o'r gwaith clirio yn cael ei gwblhau dros yr wythnos nesa. Cytunwyd hefyd i ddefnyddio arian tu cefn i dalu contractwr lleol i wneud gwaith clirio ychwanegol yn y flwyddyn newydd.

<u>c) Mynwentydd.</u>
Roedd y cynghorwyr wedi ymweld a'r mynwentydd ac ail archwilio'r cerrig beddi. Roedd rhai teuluoedd wedi cymryd camau i ddiogelu'r cerrig ond roedd 3 carreg arall ym mynwent Llandderfel heb gael sylw. Cytunwyd i ofyn i'r gofalwr i osod rhwystr i'w cadw mewn lle.

**<u>iv) Gohebiaeth.</u>**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

<u>a) Amrywiol.</u>
i) Cyfoeth Naturiol Cymru – Parc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i anfon sylwadau yn nodi gwrthwynebiad y Cyngor i'r cynllun.
ii) Parc Cenedlaethol Eryri – diweddariad ar broses adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri.

<u>v) Ceisiadau Cynllunio</u>
<u>ii) PEDW - DNS/3276735 - Fferm Wynt Gaerwen - hysbysiad o'r weithdrefn</u>
Derbyniwyd llythyr yn ein cynghori fod y cyfnod penderfynu wedi ei ohirio am 3 wythnos arall er mwyn caniatáu i bob parti gael dealltwriaeth well o'r materion y mae'r Arolygydd yn ceisio cael rhagor o wybodaeth amdan. Ar ôl cael y wybodaeth ofynnol, bydd y cyfnod ymgynghori'n para 5 wythnos, h.y. hyd at yr wythnos sy'n dechrau ar 9 Mawrth 2026.

**<u>vi) Materion Ariannol.</u>**
<u>a) Adolygu cyflog a chostau'r clerc.</u>
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ddilyn graddfeydd cyflog a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru a chynyddu cyflog y clerc o fis Ebrill 2026.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

b) Cyllideb a Praesept 2026/27.
i) Cytunwyd i ychwanegu arian ar gyfer cyflog y clerc, ffioedd archwilio'r cyfrifon a tal aelodaeth yr ICO. Cytunwyd i leihau'r gwariant ar gyfer costau banc gan nad oedd HSBC yn codi'r £5 ffi misol rhagor. Amcangyfrif y bydd £1,750 o ad-daliad TAW a £100 o logau banc.
ii) Cytunwyd i gadw'r Praesept yn £15,000 ar gyfer 2026-27, gan barhau i glustnodi £2,000 ar gyfer gwaith trwsio wal mynwent Llanfor. Byddai hyn yn sicrhau fod digon o arian ar gael ar gyfer unrhyw wariant hanfodol, i gefnogi prosiectau lleol ac fel bod dros 3 mis o wariant gros y cyngor tu cefn.

c) Pension Regulator.
Llythyr yn ein cynghori fod angen ail gadarnhau manylion y Cyngor a gofynnwyd i'r Clerc wneud hyn.

ch) Taliadau.
Cytunwyd i dalu'r canlynol –
i) Cyflog a chostau'r clerc (Hyd-Rhag)
ii) TWE
iii) Hannah Gwenllian Web Designs (Gwefan)
iv) ICO
v) John Emrys Davies (llwybr mynwent Frongoch)
vi) C.T.Roberts Plant Hire Ltd (torri coed mynwent Frongoch)
vii) Brian Evans & fab (walio ym mynwent Frongoch)
viii) Cyngor Gwynedd (bin gwastraff gardd mynwent Llandderfel)
ix) Gwasanaeth Coed Tom Edwards (gwaith clirio coed mynwent Frongoch)

d) Ceisiadau Ariannol.
Cafwyd ceisiadau gan Apêl Cronfa i Bawb yr Urdd 2025-26 ac Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**
a) Cynllun Bioamrywiaeth 2025-28.
Mabwysiadwyd y Cynllun a baratowyd gan y clerc.

b) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Sbwriel wedi cael ei adael yn y lay-by ger Braich Ddu, Glanrafon.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Chwefror 3ydd am 7.30 y.h. yn Neuadd Bro Derfel.


Arwyddwyd: …………………………………………….     Dyddiad: ……………………………………..